# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd yn y Rhithiol ddydd Gwener, 26 Mawrth 2021

**Presennol**: Y Cynghorwyr Aled Morris Jones (Cadeirydd), Dylan Rees (Is-Gadeirydd) John Griffith, Richard Griffiths, Richard O Jones, Bryan Owen, Alun Roberts, J A Roberts, Margaret Roberts a Nicola Roberts.

Aelodau Cyfetholedig: Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig), Mr Dyfed Wyn Jones (Rhiant – Lywodraethwr, Sector Cynradd)

**Y rhai a lofnododd y cais i alw i mewn nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor**

Y Cynghorwyr Kenneth Hughes, R Llywelyn Jones, Peter Rogers

**Aelodau Portffolio:** Y Cynghorwyr Llinos Medi Huws (Arweinydd), R. Meirion Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg, Pobl Ifanc , Llyfrgelloedd a Diwylliant), R G Parry, OBE, FRAgS (Aelod Portffolio ar gyfer Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff), Dafydd Rhys Thomas (Aelod Portffolio ar gyfer Busnes y Cyngor), Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid).

**Wrth law:** Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Pennaeth Proffesiwn (AD) a Rheolwr Trawsnewid, Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM), Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, (RJ), Rheolwr Sgriwtini (AGD), Swyddog Pwyllgor (ATH**)**

**Ymddiheuriadau**: Mrs Anest G. Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)

**Hefyd yn bresennol**: Mr Robat Idris Davies (ar ran Ysgol Talwrn a'r gymuned), Swyddog Sgriwtini (SR), Mr Gareth Williams (Gohebydd Democratiaeth Leol)

(9:30yb - 11:25 yb)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1 Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| | Bu'r Cynghorydd Nicola Roberts ddatgan diddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 2 ar yr agenda fel aelod o gorff llywodraethu Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.<br><br>Bu Mr Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ddatgan diddordeb personol ond nid un a oedd yn rhagfarnu yn eitem 2 ar yr agenda o ran bod ei dad yng nghyfraith yn aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Talwrn. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 Galw Penderfyniad i Mewn: Adroddiad Gwrthwynebu - Moderneiddio Ysgolion Ardal Llangefni Ysgol Talwrn ac Ysgol Y Graig** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Penderfynwyd gwrthod y mater a gafodd ei alw i mewn a chadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Gwaith o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth, 2021 sef i gymeradwyo'r cais gwreiddiol i gynyddu capasiti Ysgol y Graig i gymryd disgyblion o Ysgol Talwrn, cau Ysgol Talwrn ac adolygu dalgylchoedd Ysgol y Graig ac Ysgol Talwrn.<br><br>(Bu i'r penderfyniad gael ei basio o 10 pleidlais i 2). |